

Gwerthuso Cynllun Camu Ymlaen Cymru Adroddiad Cryno

Cynnwys

- Cefndir
- Gweithredu'r cynllun
- Gwerthuso
- Casgliad
- Geirfa

Cefndir

Datblygwyd cynllun Camu Ymlaen Cymru mewn partneriaeth â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fe'i cynhaliwyd rhwng mis Hydref 2009 a mis Ebrill 2010. Daeth y syniad ar gyfer cynllun peilot Camu Ymlaen o ganlyniad i atborth a gwerthusiad o Gynllun Cysgodi Operation Black Vote (OBV) a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2007/2008. Ceisiai'r cynllun hwnnw gynyddu'r gynrychiolaeth o blith grwpiau pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig mewn pleidiau/grwpiau gwleidyddol. Wrth adeiladu ar waith y Cynllun OBV, nod y bartneriaeth hon oedd cynyddu cyfranogiad democrataidd a dinasyddiaeth weithgar pobl Cymru a oedd wedi nodi nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd gwleidyddol a /neu sifil.

Roedd y cynllun yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad a chynghorwyr lleol o Gymru gyfan a oedd yn gwirfoddoli i fentora pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac i'w gwahodd i'w cysgodi yn eu gwaith fel aelodau etholedig. Roedd pedwar ar ddeg ar hugain o barau mentora wedi cymryd rhan yn y Cynllun trwy Gymru.

Cyfrannodd y partneriaid £90,000 at weithrediad y Cynllun, a gostiodd lai nag y neilltuwyd yn y gyllideb, £75,000.

Amcan y cynllun oedd rhoi cyfle i unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael sgiliau a gwybodaeth i weithredu fel Llysgenhadon yn eu Cymunedau, a rhoi hyder iddynt i ymgysylltu mwy mewn cymdeithas sifil. I'r perwyl hwn, datblygodd y bartneriaeth nifer o amcanion ar gyfer y Cynllun:

- Meithrin cysylltiadau â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cynyddu gwybodaeth am y system wleidyddol/ ddemocrataidd yng Nghymru i alluogi cyfranogwyr i ennill sgiliau amrywiol gyda golwg ar ystyried cael eu cynnwys fwyfwy yn y maes gwleidyddol a sifil.

- Cynyddu hyder ac ymgysylltiad sifig grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol
- Cynyddu cynrychiolaeth sifig a chymunedol grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cynyddu dealltwriaeth o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Leol ac ennyn mwy o hyder ymhlith y grwpiau hynny a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Rhoi cyfle i wleidyddion unigol, pleidiau gwleidyddol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Leol yng Nghymru, weithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chael gwell golwg ar eu profiadau ac adnabod y rhwystrau sy'n bodoli iddynt gael eu cynnwys/ iddynt gymryd rhan
- Hyrwyddo neges gadarnhaol bod modd i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nghymru ddylanwadu a sicrhau newid cadarnhaol drwy ymgysylltu â gwleidyddion a'r broses ddemocrataidd.

Gweithredu'r Cynllun

Penodwyd Cydgysylltydd i'r Cynllun i fod yn brif berson cyswllt a chyfeirio ar gyfer holl elfennau'r cynllun. Gwnaed y dasg o reoli'r prosiect gan aelodau'r bartneriaeth gyda chymorth Grwp Llywio o sefydliadau cynrychioliadol. Mae'r partneriaid yn ddiolchgar am waith Cydgysylltydd y Cynllun ac aelodau'r Grwp Llywio a ddarparodd gefnogaeth ac arweiniad iddynt yn ystod oes y Cynllun.

Datblygodd y partneriaid a oedd yn rhan o'r prosiect strategaeth hyrwyddo/ recriwtio er mwyn sicrhau bod modd i bobl o drawstoriad o gymunedau Cymru gael cyfle i fod yn rhan o'r cynllun. Roedd y partneriaid a'r Grwp Llywio'n arbennig o awyddus i annog unigolion a oedd yn draddodiadol wedi datgysylltu o gymdeithas sifil ac o brosesau democrataidd i ymgeisio. Cafodd y cynllun ei hyrwyddo am chwe wythnos trwy'r partneriaid ac aelodau'r grwp llywio, gan ddefnyddio rhestrau postio, cylchlythyrau a fforymau ar-lein. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol a chenedlaethol mewn ymgais i gyrraedd unigolion nad oedd ganddynt gysylltiad ag unrhyw gyrff neu grwpiau cynrychioliadol.

Cynhaliwyd canolfannau asesu anffurfiol mewn lleoliadau trwy Gymru. Cafwyd cyfanswm o 79 o geisiadau, ac roedd 58 wedi'u dewis i fod ar y rhestr fer a'u gwahodd i fynychu canolfan asesu. Roedd 36 o ymgeiswyr yn llwyddiannus a chymerodd 34 o'r rhain ran yn y cynllun. Mae modd gweld dadansoddiad o geisiadau'r ymgeiswyr a'r rhai a fu'n llwyddiannus i gael eu mentora, yn y tabl isod.

	Ymgeiswyr	Rhai ar y Rhestr Fer	Rhai a fu'n llwyddiannus
Cyfanswm	79	58	36*
Merched	54	40	27

Dynion	24	15	9
Trawsryweddol	1	1	0
Pobl anabl	40	24	12
Pobl ddu ac o gefn- diroedd ethnig	21	16	14
Pobl Lesbiaidd, Hoyw a deurywiol	7	5	3
Rhai o dan 25	8	6	5
Rhai dros 55	19	12	6

*Dechreuodd 34 o bobl ar y cynllun Mentora

Yn ystod yr amser hwn roedd yn ofynnol i rai a fentorwyd gael o leiaf ddeg 'profiad' gyda'u Mentor, er enghraifft, drwy fynychu cymhorthfa'r cyngor, cyfarfod Pwyllgor y Cynulliad neu drwy ymweliad neu ymgyrchoedd yn yr etholaeth. Lluniodd y partneriaid ar y prosiect ddogfen ganllawiau yn cynnig enghreifftiau o brofiadau posibl roedd modd eu darparu ar gyfer y Mentor a'r sawl a fentorwyd cyn y cyfarfod cyntaf er mwyn hwyluso'r broses gynllunio.

Cynigiwyd cynllun hyfforddi i rai a fentorwyd, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o gyrsiau i wella gwybodaeth, hyder a pha mor weithgar yr oeddent yn eu cymunedau ar ddechrau'r cynllun. Roedd modd i'r rhai a fentorwyd ddewis unrhyw ran o'r hyfforddiant a oedd ar gael neu'r cyfan ohono, neu gallent fod wedi cynnig eu syniadau eu hunain ar gyfer dysgu a datblygu.

Gwerthuso

Defnyddiwyd dulliau gwahanol er mwyn arfarnu'r cynllun yn ôl ei amcanion:

- Holiaduron ymhlith y rhai a fentorwyd cyn i'r Cynllun ddechrau ac ar ei ddiwedd
- Holiaduron Mentoriaid
- Holiaduron Grwpiau Lywio a
- Grwpiau ffocws – un yn cynnwys aelodau'r bartneriaeth, ac un yn cynnwys y rhai a fentorwyd

Prif ganfyddiadau:

- Roedd dealltwriaeth y rhai a fentorwyd am wahanol lefelau llywodraeth wedi cynyddu'n sylweddol erbyn diwedd y cynllun.
- Cynyddodd y rhai a fentorwyd eu dealltwriaeth am y gwahaniaeth rhwng y sefydliadau gwleidyddol yn ystod cyfnod y cynllun.
- Roedd cynnydd yn y ddealltwriaeth o swyddogaethau cynrychiolwyr etholedig: Aelodau'r Cynulliad, cyngorwyr lleol ac Aelodau Seneddol
- Hefyd roedd cynnydd yn eu hyder mewn gwleidyddion

- Gofynnwyd i rai a fentorwyd i roi marciau iddynt eu hunain fel dinasyddion gweithgar gyda'r ymateb cyfartalog yn 4.4 allan o 10 ar ddechrau'r cynllun o'i gymharu â 8.1 allan o 10 erbyn diwedd y cynllun

Ar ôl cwblhau'r cynllun gofynnwyd i rai a gymerodd ran a oeddent yn teimlo'n hyderus i wneud tasgau fel sefydlu grwp cymuned. Dywedodd 56.5% o'r rhai a fentorwyd y byddent yn sefydlu grwp cymunedol, a dywedodd 17.4% eu bod eisoes wedi gwneud hynny. Dangosodd y cwestiwn hwn hefyd y byddai dros 50% o'r rhai a fentorwyd a ymatebodd yn ystyried ymuno â phlaid wleidyddol, ac roedd 21.8% arall wedi ymuno â phlaid wleidyddol yn ystod cyfnod y cynllun.

Ymunodd rhai o'r rhai a fentorwyd â'r rhaglen gydag ychydig iawn neu ddim gwybodaeth am wleidyddiaeth Cymru ac roeddent yn rhan ohoni er mwyn cynyddu eu hyder a'u dealltwriaeth. Roedd nifer sylweddol a oedd eisoes yn wybodus ac yn uchelgeisiol a oedd yn cael eu hatal rhag datblygu oherwydd nifer o rwystrau cymdeithasol ac economaidd.

Awgrymodd nifer o Fentoriaid bod angen mwy o strwythur a hyfforddiant arnynt i wneud eu swyddogaethau. Roedd yn ddiddorol nodi bod gwahaniaethau o ran profiadau. Er bod y mwyafrif o'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn teimlo fod y profiad wedi bod yn un gwerthfawr roedd hefyd enghreifftiau o berthnasoedd llai na boddhaol.

Yn allweddol i'r profiad roedd yr egni a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y Mentor lle'r oedd strwythur wedi'i gytuno rhwng y Mentoriaid a'r rhai a fentorwyd o ran canlyniadau a phrofiadau. Nododd y rhai a fentorwyd mai'r perthnasoedd mwyaf llwyddiannus oedd y rhai lle'r oedd dysgu wedi bod yn broses ddwyffordd.

Cytunai'r rhai a fentorwyd fod yr hyfforddiant wedi bod yn hynod fuddiol i'r cynllun gyda 45% o'r rhai a ymatebodd i'r holiadur gwerthuso yn nodi mai'r hyfforddiant oedd y rhan orau o'r rhaglen.

Roedd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn gweld gwerth arbennig i'r cyfle i gyfarfod ac i rannu profiadau ag eraill ar y cynllun. Teimlai nifer o'r rhai a oedd yn cymryd rhan y byddai bod wedi cyfarfod yn amlach wedi ychwanegu at fudd y cynllun iddynt hwy.

Casgliad

Bu'r cynllun yn arwydd cadarnhaol bod cronfa o ddoniau a photensial yn bodoli drwy wahanol gymunedau trwy Gymru. Mae hyn, yn ei dro'n creu hyder ac yn meithrin diwylliant sy'n rhoi gwerth ar olygon a safbwyntiau amrywiol ar y byd. Rhaid tanlinellu pwysigrwydd hyn; drwy greu mwy o gynhwysiant ac amrywiaeth mewn polisiau cymdeithas sifig mae

gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tebygol o ateb gofynion cymunedau drwyddynt draw ac o ddefnyddio talentau'r boblogaeth yn ehangach.

Y prif gwestiwn wrth gloi'r adroddiad hwn yw a yw cynllun Camu Ymlaen Cymru wedi cyflawni ei nod: cynyddu gwybodaeth a hyder y rhai a fentorwyd a darparu cyfle i'r rhai a oedd yn cymryd rhan i ennill y sgiliau a'r wybodaeth i weithredu fel llysgenhadon cymunedol, yn cynghori a grymuso eraill i ymgysylltu'n fwy brwd mewn cymdeithas sifil? Mae hwn yn gwestiwn anodd ei ateb oherwydd mae modd mesur llwyddiant mewn llawer o wahanol ffyrdd. Ceisiodd yr adroddiad hwn werthuso cynllun Camu Ymlaen Cymru o ran cynnig argymhellion i ddeillio ohono. Ar hyn o bryd, dim ond drwy edrych sut y mae'r rhai sy'n cymryd rhan wedi ymateb, a yw eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth wedi cynyddu o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun a gofyn a oes unrhyw newid wedi digwydd o ran eu hymddygiad, y mae modd gwerthuso. Er mwyn ystyried yr effaith yn y tymor hirach byddai angen gwaith pellach i ymchwilio i'r cynnydd mewn cyfranogiad sifig ac i ystyried beth a enillwyd o'r buddsoddiad yn y cynllun.

A wnaeth y rhai a oedd yn cymryd rhan, yn Fentoriaid a rhai a fentorwyd, ddysgu o'u profiadau? A yw cyfranogiad sifig wedi cynyddu o ganlyniad i'r cynllun neu a fydd cynnydd yn y dyfodol? Dengys canfyddiadau'r gwerthusiad, ar y cyfan bod llawer wedi'i ddysgu ac y bydd cyfranogiad sifig yn cynyddu. Nid oes amheuaeth o'r ymatebion a gafwyd y bu cynnydd sylweddol o ran gwybodaeth am y system wleidyddol /ddemocrataidd yng Nghymru ac mae'r hyder yn y Cynulliad a llywodraeth leol yn llawer gwell ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan yn y cynllun. A yw'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn well o fod wedi gwneud hynny? I'r mwyafrif, heb amheuaeth yr ateb i hyn heb oedi oedd 'Ydw' yn bendant.

Canmolodd Adroddiad Cynhadledd Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ar Gynrychiolaeth Seneddol (2009) gynllun Camu Ymlaen Cymru fel menter yr oedd yn bosibl iddi gael ei hefelychu a'i datblygu ar draws y DU.

Geirfa

Dinasyddiaeth weithgar – y modd y mae pobl yn ymwneud yn eu cymunedau i helpu i weithio drostynt.

Aelodau'r Cynulliad – gwleidyddion a etholwyd i gynrychioli gwahanol ardaloedd trwy Gymru. Mae 60 o Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cymdeithas sifil – yn cynnwys pobl a grwpiau sy'n gweithio er budd y gymuned.

Democratiaeth / prosesau democrataidd - mae democratiaeth yn golygu y dylai pawb mewn gwlad gael dweud eu dweud ynglyn â phwy sy'n gwneud penderfyniadau yn y wlad honno a beth sy'n digwydd ynddi.

Cyfranogiad democrataidd – pobl yn cymryd rhan mewn democratiaeth

Cynrychiolwyr etholedig – pobl a bleidleisir drostynt i ddod i swyddi i wneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff gwasanaethau gwahanol eu cynnal.

Grwp ffocws - grwp o bobl a gafodd eu dwyn ynghyd i drafod materion penodol. Roedd ein grwp ffocws ni yn dwyn ynghyd y rhai a fentorwyd i drafod eu profiadau.

Awdurdodau Lleol Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob awdurdod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol yn eu hardal, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ffyrdd.

Cynghorwyr Lleol – gwleidyddion a etholwyd i gynrychioli pobl mewn Awdurdodau Lleol

Y sawl a gaiff ei fentora – person sy'n cael arweiniad gan Fentor.

Mentor – person sy'n cynorthwyo ac yn arwain datblygiad unigolyn arall. Aelodau'r Cynulliad a Chynghorwyr Lleol oedd y mentoriaid yn ein Cynllun.

Aelodau Seneddol – gwleidyddion a etholwyd i gynrychioli pobl yn Senedd y Deyrnas Unedig a leolir yn Nhŷ'r Cyffredin yn San Steffan, Llundain.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad drwy Gymru. Caiff yr Aelodau eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli hwy a'u cymunedau, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gwneud ei gwaith yn iawn.

Grwp Llywio - grwp o bobl o wahanol sefydliadau a gynorthwyodd i gynllunio ac i drefnu ein Cynllun.

Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol- grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un nodweddion nad ydynt o bosibl yn ymwneud mewn cymdeithas sifil - er enghraifft, maent yn hoyw o bosibl, yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig neu'n bobl anabl.

Llywodraeth Cynulliad Cymru - mae ganddi'r grym i ysgrifennu cyfreithiau ac i benderfynu beth a wneir yng Nghymru mewn cysylltiad â meysydd penodol (er enghraifft - iechyd, addysg a'r amgylchedd) . Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, a Gweinidogion, ac mae wedi'i lleoli yng Nghymru.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - mae'n cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.